

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**  
**24 MEDI 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau, 24 Medi 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd David Healey (Cadeirydd)**

Janet Axworthy, Sian Braun, Carol Ellis, Gladys Healey, Joe Johnson, Dave Mackie, Ian Smith, Martin White a David Williams

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lynn Bartlett a David Hytch

**YMDDIHEURIADAU:** Wendy White

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cyngorydd Patrick Heesom yn bresennol fel arsylwr

**DIRPRWYON:** Cyngorwyr Sean Bibby (ar ran Paul Cunningham) a Kevin Hughes (ar ran Tudor Jones)

**CYFRANWYR:** Y Cyngorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg; Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Uwch Reolwr – Newid Busnes a Chefnogaeth; Uwch Reolwr - Cynhwysiant a Dilyniant) ac Uwch Reolwr Systemau Gwella Ysgolion Rheolwr Cyllid Ysgolion

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

**1. PENODI CADEIRYDD**

Dyweddodd yr Hwylusydd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Llafur. Cafodd y Pwyllgor wybod fod y Cyngorydd David Healey wedi cael ei benodi i'r rôl ar gyfer blwyddyn y cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cyngorydd David Healey fel Cadeirydd y Pwyllgor.

**2. PENODI IS-GADEIRYDD**

Enwebodd y Cyngorydd Martin White Mr David Hytch fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan Mrs. Lynn Bartlett. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi Mr David Hytch yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**3. DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

#### **4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020.

##### Materion sy'n codi

Tudalen 3 – Cyfeiriodd Mr David Hytch at ei sylwadau, a gofynnodd eu bod yn cael eu newid i ddarllen “cyfeiriodd Mr Hytch at y graff yr oedd yn teimlo oedd yn agored i gamddechongliad”

Cynigodd y Cynghorydd Dave Mackie, yn amodol ar y diwygiadau uchod, y dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey.

##### **PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

#### **5. BRIFFIO YNGLŶN A'R SEFYLLFA ARGYFYNGUS (Llafar)**

Fe eglurodd y Prif Weithredwr fod y sefyllfa bresennol yn un ansefydlog. Byddai ef a'r Uwch Swyddogion yn sicrhau bod Aelodau yn cael diweddariad byr ar lafar ar ddechrau cyfarfodydd. Dywedodd hefyd y gallai fod yn angenrheidiol ailgyflwyno'r briff ar y sefyllfa, a roddwyd i Aelodau yn ystod chwe mis cyntaf yr argyfwng.

Canmolodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr a Swyddogion y Cyngor am eu gwaith caled mewn amgylchiadau heriol iawn.

##### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad ar lafar.

#### **6. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR**

Cyflwynodd Hwylusydd Pwyllgor Craffu a Throsolwg yr adroddiad i dderbyn cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor fel y cytunwyd gan y Cyngor. Yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, penodwyd Cadeiryddion i'r pump Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o fewn y strwythur newydd gyda chylch gorchwyl diwygiedig. Roedd newidiadau i gylch gwaith y Pwyllgor hwn yn cynnwys ychwanegu Llyfrgelloedd, Diwylliant a Threftadaeth (yn cynnwys Archifau ac Amgueddfeydd), Gwasanaethau Hamdden (yn cynnwys canolfannau hamdden a chwaraeon, pyllau nofio a chyfleusterau hamdden), Theatr Clwyd ac Aura (yn cynnwys Canolfan Hamdden Treffynnon a Cambrian Aquatics).

Cynigiodd y Cynghorydd David Hytch yr argymhelliad a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Martin White.

##### **PENDERFYNWYD:**

Bod y cylch gorchwyl, fel y cytunwyd arno gan y Cyngor ac sydd yn atodiad i'r adroddiad, yn cael ei nodi.

## **7. STRATEGAETH ADFERIAD**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i roi trosolwg i'r Pwyllgor o gynllunio adferiad ar gyfer ei feysydd portffolio yn rhan o'r strategaeth er mwyn ailgychwyn y broses lywodraethu ddemocrataidd llawn. Byddai adborth o bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am y cofrestrau risg, y blaenoriaethau adferiad a thargedau dangosydd perfformiad diwygiedig ar gyfer eu meysydd yn cael eu hadrodd i'r Cabinet cyn cyhoeddi Strategaeth Adferiad lawn.

Cafwyd cyflwyniad oedd yn dangos y trosglwyddiad o ymateb i adferiad am y pwyntiau canlynol:

- Argymhellion gan y Cabinet
- Amcanion y Strategaeth Adferiad
- Amcanion yr Ymateb
- Enghreifftiau o gyflawniadau lleol wrth Ymateb
- Adferiad – trefniadau trosglwyddo
- Strwythurau Adferiad Rhanbarthol a Lleol
- Amcanion Adferiad - Gwasanaethau
- Gweithgareddau Adferiad
- Adferiad Cymunedol
- Cynllun a Pherfformiad y Cyngor
- Llywodraethu Adferiad yn Ddemocrataidd

Rhoddodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) gyflwyniad am y gofrestr risg ar gyfer portffolio'r gwasanaeth oedd yn ymdrin â'r canlynol:

- Risgiau Portffolio Addysg ac Ieuenctid
- Risgiau presennol
- Risgiau i'r Adferiad
- Llywodraethu/Cyfreithiol
- Gweithlu

Fe awgrymodd y Prif Weithredwr bod Aelodau yn ystyried risgiau o bryder parhaus a sut orau i'w hadrodd i'r Pwyllgor er mwyn dylanwadu ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol. Rhoddodd y Prif Swyddog ac Uwch Reolwyr drosolwg o'r blaenoriaethau strategol nesaf ar gyfer adferiad a gafodd eu hargymhell i'w cynnwys yn y Strategaeth Adferiad.

Diolchodd y Cynghorydd Dave Mackie i'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog ac Uwch Swyddogion am eu sylwadau a chanmolodd y modd y mae'r awdurdod wedi ymateb yn ystod y sefyllfa o argyfwng. Fe soniodd am y cyngor wedi'i dargedu am ddiogelu a roddwyd i benaethiaid gan alluogi iddynt gynnal cyswllt a pherthynas gyda theuluoedd tra bod yr ysgolion ar gau a sicrhau bod atgyfeiriadau yn parhau. Dywedodd y byddai angen parhau i fonitro'r risg o ran absenoldeb gweithlu er mwyn sicrhau'r effaith lleiaf posib ar ddarparu'r gwasanaeth. Siaradodd nifer o aelodau'r Pwyllgor o blaid sylwadau'r Cynghorydd Mackie.

Wrth siarad i gefnogi sylwadau Cynghorydd Mackie, cymeradwyodd David Hytch ymdrechion yr awdurdod. Fe soniodd am y risg yn ymwneud ag ysgolion uwchradd o beidio bod yn ariannol hyfyw oherwydd cyllid sylfaenol annigonol a gofynnodd a oeddynt yn edrych eto ar y fformiwla rhannu. Er ei fod yn cefnogi hyn, nid oedd yn teimlo y byddai hyn yn cynorthwyo ysgolion yn ddigonol os oedd y gyllideb cychwynnol yn parhau'n isel. Gofynnodd hefyd a fyddai'r dyfarniad cyflog i athrawon yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a mynegodd bryder am yr effaith ar gyllidebau ysgolion os nad oedd yn dod gan y Llywodraeth.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg bod LIC wedi ymrwymo i ariannu rhwng 2-2.5% o ddyfarniad cyflog athrawon. Roedd cyfanswm y cynnydd gyfystyr â 3.1% o gyllid ychwanegol, felly byddai'n rhaid i'r awdurdod ariannu'r gwahaniaeth. Roedd yna bryder ynglŷn â chyllid ar gyfer effaith llawn 3.1% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 os na fyddai'r cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod dyfarniad cyflog 'Llyfr Gwyrdd' y rhai nad ydynt yn athrawon wedi cael ei gynnwys ac roedd yna ddarpariaeth o fewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer y swm ychwanegol ar gyfer eleni ar ôl cyllidebu 2%, a daeth i 2.75% oedd tua £800,000 mewn cyllid ychwanegol. Gan edrych ar y ffigurau hyn, efallai y bydd yna gyfran o risg yng nghynnydd yr athrawon sy'n weddill a fyddai'n gorfod cael ei rannu gydag ysgolion.

Fe soniodd y Cadeirydd am gostau ychwanegol i ysgolion yn sgil y sefyllfa o argyfwng a gofyn a oedd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i fodloni eu hanghenion. Fe soniodd y Prif Swyddog am y ffrydiau ariannol sydd ar gael i ysgolion i hawlio ar gyfer eitemau penodol o wariant penodol i gefnogi eu hymateb i'r sefyllfa argyfyngus. Fe eglurodd hefyd bod cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu ar gyfer iechyd a lles emosiynol er mwyn cynyddu capasiti cwnsela a oedd yn allweddol er mwyn i ddysgwyr ail ymgysylltu mewn addysg yn llwyddiannus. Fe eglurodd y Prif Weithredwr beth oedd y broses i wneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a'r heriau i gymhwyster. Dywedodd bod yr awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn cyflwyno ceisiadau am gyllid a gafodd eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Gan ymateb i gwestiwn ynglŷn ag achosion positif o Coronafeirws mewn ysgolion, cadarnhaodd y Prif Swyddog bod llai na 10 o achosion wedi'u cofnodi, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o drosglwyddiad yn yr ysgolion. Fe amlinellodd y Prif Swyddog beth oedd y gefnogaeth a roddir i ysgolion pan fydd disgybl yn cael prawf positif, ac eglurodd bod yr arfer orau yn cael ei rannu rhwng ysgolion.

Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey pa gefnogaeth oedd ar waith i blant oedd yn yr ysbyty a sut oedd gofalwyr ifanc sydd yn gofalu am eu rhieni yn cael eu cefnogi. Fe eglurodd yr Uwch-Reolwr (Cynhwysiant a Dilyniant) y byddai plentyn yn yr ysbyty yn cael cynnig addysg oedd yn cael ei ddarparu trwy system yr ysbyty ond yn cael ei ariannu gan yr awdurdod. Roedd y ddarpariaeth addysg oedd ei angen yn cael ei addasu i anghenion pob plentyn unigol gydag addysg yn y cartref yn cael ei ddarparu i blant oedd yn gwella adref. Fe eglurodd y Prif Swyddog bod cefnogaeth i ofalwyr ifanc yn cael ei ddarparu trwy'r Gwasanaeth Ieuencid Integredig ac fe soniodd am y cynllun cerdyn lle gall gofalwyr ifanc

adael i athrawon ac ysgolion wybod yn dawel bach os oeddynt yn cael trafferth ymdopi. Mae ysgolion wedi bod ystyriol o hyd ac ar ddechrau'r argyfwng, darparwyd adnoddau i gefnogi gofawyr ifanc yn ystod y cyfnod yma.

Canmolodd y Cadeirydd y gefnogaeth a roddwyd i ofalwyr ifanc trwy'r gwasanaethau cymdeithasol, ond gofynnodd a ddylai'r risg i barhau i'w cefnogi gael ei gynnwys ym mhorthfolio Addysg ac leuenctid a chofrestri risg gwasanaethau cymdeithasol. Cytunodd y Prif Swyddog i ystyried hyn gyda'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn asesu a oedd hyn yn risg y dylid ei gynnwys ar ein cofrestr risg neu a oedd hyn eisoes yn cael ei gofnodi trwy fusnes y portffolios fel arfer.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r nifer o ddarparwyr gofal plant, fe eglurodd y Prif Swyddog bod hyn wedi cael ei ystyried yn ofalus er mwyn sefydlu a fyddai hyn yn achosi risg sylweddol, ond dywedodd bod LIC wedi darparu cyllid drwy Gynllun Cymorth Gofal Plant Coronafeirws i ddarparu gofal plant brys i blant o dan 4 oed, ac roedd nifer o grwpiau chwarae a meithrinfeydd wedi manteisio ar hyn. Wrth i gyllid ychwanegol ddod i ben, roedd Llywodraeth Cymru wedi ailgyflwyno cynlluniau megis Cynnig Cyfle Cynnar ar gyfer Addysg Gynnar a Chynnig 30 awr o Ofal Plant y bu modd i'r busnesau hyn fanteisio arnynt. Mae'r Tîm Gofal Plant wedi bod yn monitro hyn er mwyn sefydlu a fu yna effaith sylweddol gan fod rhai busnesau wedi methu ail-agor. Cadarnhaodd yr Uwch-Reolwr (Systemau Gwella Ysgolion) bod hyn yn parhau i gael ei adolygu, ac o achos y strategaethau a chefnogaeth sydd eisoes ar waith gyda darparwyr, mae hyn wedi galluogi iddynt fod mewn sefyllfa llawer cryfach.

Mynegodd y Cynghorydd David Williams bryderon am daliadau uniongyrchol a cheisiodd sicrwydd eu bod yn cyrraedd y plant mwyaf diamddiffyn yn y Sir. Dywedodd y Prif Swyddog bod LIC wedi ymateb yn gyflym i sicrhau nad yw'r teuluoedd sydd wedi derbyn prydau ysgol yn cael eu heffeithio'n fawr yn ystod y cyfnod clo, ac yn parhau i dderbyn y gefnogaeth honno. Cynhaliwyd trafodaeth gyda LIC i sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn parhau nes i'r ysgolion agor yn llawn ar 14 Medi. Mae'r tîm Refeniw a Budd-daliadau wedi rhestru teuluoedd sydd â hawl i'r gefnogaeth yma trwy geisiadau am fudd-daliadau ac mae wedi galluogi taliadau yn syth i gyfrifon banc y teuluoedd hynny.

Canmolodd Arweinydd y Cyngor Llywodraeth Cymru am ei chefnogaeth i deuluoedd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'i blaenoriaeth i barhau i gefnogi dysgwyr diamddiffyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Ian Smith faint o ddysgwyr oedd wedi cael anawsterau yn ymgysylltu neu'n gallu cael gafael ar ddysgu o bell. Dywedodd y Prif Swyddog y cynhaliwyd gwaith ar ddechrau'r cyfnod o argyfwng er mwyn adnabod y dysgwyr hynny nad oedd â mynediad at declynnau digidol. Cafodd adnoddau o Brosiect Isadeiledd Hwb eu haildefnyddio i'r dysgwyr hynny a darparwyd dyfeisiau MiFi gan alluogi iddynt gael mynediad i ddysgu ar-lein. Fe eglurodd yr Uwch Reolwr (Systemau Gwella Ysgolion) bod GwE yn cefnogi ysgolion i sicrhau bod ganddynt ddeunyddiau ac adnoddau priodol i gefnogi dysgwyr ar gyfer unrhyw sefyllfa pan fod angen iddynt weithio o adref. Roedd gwaith ar gydnerthedd a chefnogaeth i ysgolion llai a rhannu adnoddau hefyd yn mynd rhagddo.

Diolchodd y Prif Swyddog i'r Uwch Dîm Rheoli sydd wedi gweithio'n arbennig o galed i gefnogi ysgolion a lleoliadau gofal plant drwy gydol yr amser anodd yma. Mynegodd ei diolch hefyd i'r ysgolion gan egluro'r gwaith y mae'r Penaethiaid wedi'i wneud i gefnogi disgyblion, i barhau i gyflwyno'r cwricwlwm, ac fe soniodd am eu brwdfrydedd o gael dysgwyr nôl yn yr ystafell ddosbarth. Roedd yr Arweinydd hefyd yn dymuno diolch i bawb a fu'n cefnogi dysgwyr yn ystod y sefyllfa o argyfwng, a dywedodd bod 23,000 o blant wedi dychwelyd i'r ystafell ddosbarth yn y Sir dros y 3 wythnos diwethaf, gyda chyfradd presenoldeb o 86%. Diolchodd y Prif Swyddog am ei harweinyddiaeth a'i hymroddiad yn ystod y cyfnod anodd a heriol.

Gofynnodd y Cadeirydd am gynnig i gefnogi'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad ac awgrymodd argymhelliad ychwanegol – bod y Pwyllgor yn canmol y tîm portffolio i ddelio â'r ymateb i argyfwng a'i waith tuag at flaenoriaethau yn y dyfodol sy'n cynnwys pobl ifanc sydd yn ddigartref a thlodi plant. Cafodd yr argymhelliad hwn, ynghyd â'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Janet Axworthy a'u heilio gan David Hytch.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn canmol y tîm portffolio i ddelio â'r ymateb i argyfwng a'i waith tuag at flaenoriaethau yn y dyfodol sy'n cynnwys pobl ifanc sydd yn ddigartref a thlodi plant;
- (b) Cytuno ar y set lawn o flaenoriaethau strategol nesaf ar gyfer adferiad y portffolio fel y nodwyd yn yr adroddiad, ynghyd â'r dadansoddiad risg a chamau gweithredu lliniaru ar gyfer y rhai presennol a'r rhai sydd wedi'u cynllunio; a
- (c) Bod rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn cael ei hail-lunio ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor ar gyfer 2020/21, gyda chynllunio adferiad yn ganolbwynt iddi.

## **8. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.51pm)

.....  
**Y Cadeirydd**